5.98

# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES AM

# Benson Covert,

O BENTREF ASHBURN, SIR GAEREFROG,

(YORKSHIRE)

*AIL WRAIG YR HWN*

## A wenwynodd Dri o'i Blant,

AC WEDI HYNY A YMGROGODD.

*I'w chanu ar Fryniau'r Iwerddon.*

CYD neswch yma 'rawr-hon yn fawrion ac yn fan,
'Rwyf i trwy barch arbenig, yn awr yn cynyg cân,
Bydd hyn i chwi'n rhybuddion, os llwyr wrandewch yn hu,
Heb gel o 'wyllys calon, mi draetha'r modd y bu.

2. Roedd gwr a gwraig fwyneiddlan, yn Sir Gaerefrog fawr,
Yn byw mewn gwir happusrwydd, a llwydd ar wyneb llawr,
Er's deuddeg o flynyddau, mewn glân Briodas lon,
'Doedd neb yn byw mwy hawddgar, trwy gyrau'r ddaear hon.

X205210707

3. Bu iddynt bob llawenydd, ar gynydd digon gwir,
A bywyd fel cyffredin ar dyddin bach o dir,
A thri o blant oedd ganddynt, deg helynt yn ei gwydd,
Dau fachgen glân synhwyrol, a geneth sirol swydd.

4. Ond effaith codwm Eden sy'n galw ar bob dyn byw,
Gan farw byddwn farw, medd Gair godidog Duw;
Ac felly'r fenyw fwynaidd ga'dd fynd o'r byd i'r bedd,
A gado ei gwr ei hunan, a'i phlant oedd wiwlan wedd.

5. Peth trymllyd iawn i'w phriod, 'rol cyd-fod â hi cyd,
Oedd gwel'd rhai prydd a cherrig, i guddio ei gwyneb pryd:
Ond trymach daeth o'r diwedd, mae'n drist mynegu'r cam
A ga'dd y plant ymddifaid, 'rol iddynt golli eu mham.

6. Bu'r gwr a'i blant ymddifaid mewn galar amser hir
Ar ol ei anwyl briod, cewch ganfod yma'r gwir,
O'r diwedd ail briododd; am gael ymgeledd gu,
'Roedd ef i'w blant ymddifaid i'w lloni yn mysg pob llu.

7. Ond hon a drodd er trymder at chwerwder wrth ei chwant,
Pan byddai'r gŵr yn gweithio, 'roedd hithau'n blino ei blant;
Hi a'u rhoes tan gerydd caled, Och! gwaeled oedd eu gwedd,
A'u tad oedd wrth eu gweled, bron mynd o'r byd i'r bedd.

8. Fe ddywedodd wrth ei briod, Rhyw syndod megis saeth,
Wrth wel'd fy mhlant mor waelion i'm calon union aeth;
Oddiar pan ddaethoch atynt, ni wiw mor gwadu'r gwir,
'Rwy'n ofni fod y gweiniaid yn diodde' yn galed gûr.

9. 'Rol iddo fe lefaru y geiriau hyn i gyd,
Hi aeth mewn llid echryslon, afradlon oedd o fryd;

Trwy gorph y noswaith honno ni dd'wedodd wrtho ddim,
Ond meddwl am orthrymder, hyll eger gerydd llym.

10. A chwedi'r gŵr fynd dranoeth, yn wiwddoeth at ei waith,
Aeth hithau i shop y doctor ei hun mewn moddion maith
Hi brynodd yno wenwyn, ond gerwin oedd y gwall,
Heb geisio gras yr Arglwydd, ond ufudd foddio'r fall.

11. Pan ddaeth o shop y doctor, hi alwai'r plant yn glâu,
A rhei'ny wrth ei galwad, ddoe'n union oll o'u gw'lau;
Ac yno rhoes y filain y gwenwyn hwnw i gyd,
Mewn bara, dwfr, a halen, i'w llwyr ddibenu o'r byd.

12. Ac felly ca'dd y rhei'ny eu dibenu o'r byd a'i boen,
Gobeithiaf a'u heneidiau gyd byngcio mawl i'r Oen;
A'u cyrph i brydd y ddaear lle'r awn ni oll ryw bryd,
I orphwys yno'n dawel nes delo diwedd byd.

13. 'Rol iddi gael eu gweled yn feirwon yn y fan,
Aeth hithau i ffwrdd yn sydyn anffortyn ddaeth i'w rhan,
I mewn aeth i'r ysgubor, O erchyll gyflwr caeth,
Ymgrogi megis Judas anaddas yno a wnaeth.

14. Onid ydoedd yn ddychryndod i briod hynod hon
Gael gwel'd ei blant mwyneiddlon yn feirwon ger ei fron;
A'i wraig oedd wedi ymgrogi rhwng nef a daear lawr,
Heb obaith gael maddeuant i drag'wyddoldeb mawr.

15. Ei galon sydd ar dôri o'i hachos ddydd a nos,
Fel dyn f'ai bron gwallgofi, mae'n cadw ei wely'n glos:
Doctoriaid sydd yn gwilio ac yn gweitio arno heb gudd,
O achos ei chreulondeb, bob awr o'r nos a'r dydd.

16. Ei chereint a'i pherth'nasau sy'n awr ar droeau'n drist,

W11860.

Wrth wel'd ei hanufodd-dod, a'i gwaith yn gwrthod Crist,
Yn lladd y plant ymddifaid, hyll weithred gas heb gel,
Ymgrogi ei hun fel Judas, heb gofio'r farn a ddel.

17. O Dduw dod ras bob amser i'w thad a'i thyner fam
Y'nghyd a'i hanwyl briod, er gweled ei drwg lam;
Fel delont oll i Seion, fel pererinion Duw,
Rhag myn'd trwy ddyfais diafol i ddiodde' marwol friw.

18. Dod ras i ninau 'r awr-hon, wrth wrando hanes hon,
Fel byddo y rhybyddion pur union ger ein bron,
I'm dysgu i rodio'th lwybrau yn oleu is y nen,
Ac yna cei'r gogoniant, a'r mwyniant byth. Amen.

RICHARD WILLIAMS *a'i cant.*

DIWEDD.

---

*Argraffwyd gan J. James, Merthyr.*